# Parti'r Bardd Plant

Mae'n amser trefnu parti!
Cawn sosej rôls a jeli.
Mae bardd y plant bach gora' 'rioed
yn ugain oed eleni.

Cawn gwmni'r bwystfil boliog
sy'n bwyta pigau draenog,
bisgedi hir sy'n binc fel moch
a theisen goch fel llwynog.

Bydd yno lwyth o gemau!
Cawn chwarae gyda geiriau,
A bwyta tybiau hufen iâ
fel beirdd bach da llawn odlau.

Dewch (enw), (enw) a (enw sy'n odli),
a (enw), (enw) a (enw sy'n odli),
a'ch ffrindiau i gyd, bydd croeso mawr,
Dewch, brysiwch nawr i'r parti!